

# Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



## 7. Dod o hyd i arian a'i gael

### 7.10.2 Codi arian trwy'r gyflogres

Mae codi arian trwy'r gyflogres yn cynnwys adeiladu perthynas gyda chyflogwyr a gweithwyr, gyda'r bwriad o hyrwyddo gwaith yr elusen a recriwtio rhoddwyr ymrwymedig. Gallwch wneud hyn drwy ffurfio consortiwm rhoi o'r gyflogres, neu drwy gyflogi Mudiad Codi Arian Proffesiynol (PFO), sy'n arbenigo mewn hyrwyddo rhoi o'r gyflogres. Fodd bynnag, yn enwedig ar gyfer elusennau bach lleol, un o'r dulliau mwyaf effeithiol o hyrwyddo rhoi o'r gyflogres yw gwneud hynny eich hun. Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth ar sut i ddechrau datblygu strategaeth rhoi o'r gyflogres ar gyfer eich elusen.

#### Creu eich strategaeth codi arian

Mae gwneud cysylltiadau ac adeiladu perthynas gyda chyflogwyr lleol yn cymryd amser ac ymdrech. Dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb yma i aelod o staff, gwirfoddolwr profiadol neu godwr arian proffesiynol. Naill ffordd neu'r llall, dylid clustnodi cyllideb resymol i ymdrin â'r costau yma.

#### Effaith pelen eira

Mae rhoddion o'r gyflogres yn barhaus, yn adeiladu'n wythnosol, yn fisol ac yn flynyddol. Y rhodd misol ar gyfartaledd yw £8.00 y rhoddwr, ac unwaith y dechreuir hyn, mae'n debygol o barhau nes i'r gweithiwr adael neu ganslo'r cyfarwyddyd.

**Enghraifft:** Mae'r tabl yn dangos yr incwm posib a ellir ei genhedlu yn seiliedig ar ddeg rhoddwr newydd pob mis, dros gyfnod o dair blynedd, gyda phob un yn cyfrannu rhodd fisol o £5.00.

	Mis	Nifer y rhoddwyr (£5.00 bob mis)	Gwerth bob mis
<b>Blwyddyn 1</b>	1	10	£50.00
	6	60	£300.00
	12	120	<b>£600.00</b>
<b>Blwyddyn 2</b>	1	130	£650.00
	6	180	£900.00
	12	240	<b>£1,200.00</b>
<b>Blwyddyn 3</b>	1	250	£1,250.00
	6	300	£1,500.00
	12	360	<b>£1,800.00</b>

#### Gwneud y cyfan eich hunan

Dylech wneud pob ymdrech i hyrwyddo Rhoi o'r Gyflogres eich hun a chysylltu â chyflogwyr sy'n debygol o ymddiddori yn eich gwaith. Mantais y dull yma yw eich bod yn hyrwyddo eich achos eich hun, ac mae ffordd fwy uniongyrchol a phersonol yn debygol o fod yn fwy perswadiol.

Un o'r dulliau gorau i ddysgu am roi o'r gyflogres yw cynnig cynllun o fewn eich elusen. Bydd yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun o fewn eich elusen ac yn darparu cyfle i weld y gwaith yn union.

Gallwch wedyn fod yn fwy gwybodus am redeg y cynllun wrth siarad â chyflogwyr.

### **Datblygwch eich rhwydwaith cysylltiadau**

Y cam nesaf yw hyrwyddo mudiadau, megis cyflenwyr, busnesau eich ymddiriedolwyr a chefnogwyr corfforaethol cyfredol. Bydd y mudiadau yma yn debygol o gymryd sylw, a bydd gennych fantais.

Sicrhewch fod eich staff a gwirfoddolwyr yn deall rhoi o'r gyflogres, a gwerthwch ei fanteision i gefnogwyr posib.

### **Dechreuwch yn syml**

Ewch at gwmnïau bach (llai na 50 o weithwyr) ble gallai fod yna lai o gystadleuaeth gan elusennau cenedlaethol. Bydd y rhain yn haws i gydweithio ac ni fydd y camgymeriadau mor drychinebus â gweithio gyda chyflogwyr mwy.

### **Pwy i ofyn?**

Gofynnwch y cwestiynau yma wrth ystyried y cyfleoedd busnes lleol mwyaf addas:

- Pa sectorau o'r diwydiant sydd ar gael yn lleol a phwy sy'n debygol o ymateb?
- Pa mor uchel yw trosiant y staff?
- Beth yw'r lefelau cyflog?
- A fydd yna agwedd penodol o'r achos yn fwy deniadol i rai cyflogwyr?
- A fydd y cwmni yn elwa o'r cysylltiadau gyda'r achos yn y cyfryngau lleol?
- Ydy cyswllt cymunedol / elusennol yn bwysig i ddelwedd y cwmni?

Cofiwch fod talwyr treth uwch yn derbyn cryn ad-daliad treth ar eu rhoddion; mae rhodd o £10.00 yn costio £6.00 o'u cyflog net.

### **Gwnewch gysylltiad**

Crëwch restr o 100 cyflogwr ac ysgrifennwch at bob un i drefnu cyfarfod a thrafod eich achos. Dilynwch hyn gyda galwad ffôn i drefnu cyfarfod cyntaf i drafod y cynllun, buddion i'r cyflogwr, y rhoddwyr a'r elusen. Efallai bydd yn werth darparu cynllun hyrwyddol i'w gytuno gyda'r tîm rheoli fel y gall y codwr arian greu strategaeth gyda dyddiadau penodol i barhau hyrwyddo o fewn y mudiad.

### **Hyrwyddo rhoi o'r gyflogres**

Mae elusennau sy'n elwa o roi o'r gyflogres yn ei hyrwyddo ar draws amrywiaeth o sianelau cyfathrebu.

Y dull mwyaf effeithiol o godi arian, fel gydag unrhyw fath o godi arian, yw trwy hyrwyddo wyneb yn wyneb. Mae hwn yn cynnwys derbyn caniatâd y cyflogwr i fynd at y gweithwyr yn y gweithle.

Unwaith y caniateir hyn, mae cyfle gwych gan y codwr arian i ofyn i'r cyflogwr i fod yn 'ffrind corfforaethol' yr elusen.

Peidiwch anghofio'r cyflogwyr llai! Y ffordd orau o recriwtio rhoddwyr newydd yw siarad â hwy yn bersonol; mae mudiadau llai gyda llai o staff yn caniatáu'r codwr arian i adeiladu perthynas cryfach gyda'r staff.

Dylid ymweld â'r cwmni yn rheolaidd i hyrwyddo'r elusen i weithwyr newydd, i ddiolch i gefnogwyr ac i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth a gynigir gan yr achos.

Mae cyflogwyr yn medru anghofio'n hawdd am y cynllun gan ei fod yn barhaus; mae'n bwysig felly bod yr elusennau yn atgoffa'r cyflogwyr i adnewyddu hyrwyddo mewnol y cynllun, pob 18 mis o bosib.

Mae codi arian o'r gyflogres yn cynnwys perthynas a chefnogaeth hir dymor, a phan fydd cynnal a chadw effeithiol, gall y perthynas arwain at:

- Gefnogaeth a ffyddlondeb parhaus.
- Cynllun 'Ffrind corfforaethol'
- Cysylltiadau pellach oddi wrth y cwmnïau neu ganghennau eraill.
- Cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau eraill codi arian.
- Cyfraniadau at wobrau raffl, stondinau mewn digwyddiadau blynyddol ac ati.

## **Mynd at y gweithwyr**

Wrth fynd at gyflogwyr am gefnogaeth, rhaid cael caniatâd i hyrwyddo'r achos i weithwyr y cwmni. Mae yna sawl opsiwn ar gyfer hyrwyddo'r cynllun yn fewnol a dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau. Dyma rai enghreifftiau, er nad yw hwn yn rhestr gyflawn:

### **Hyrwyddo desg wrth ddesg**

Mae'r codwr arian (neu wirfoddolwr) yn cerdded o gwmpas y swyddfeydd yn hyrwyddo'r achos, yn diolch i roddwyr ac yn rhoi iddynt y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith. Mae'r dull yma yn hynod effeithiol i greu cefnogwyr newydd.

### **Dosbarthu ffurflenni**

Gall elusennau gynhyrchu taflenni a ffurflenni a ellir eu dosbarthu drwy'r mudiad gyda slip talu'r gweithwyr.

### **Erthyglau penodol i'r achos**

Defnyddir bwletinau, cylchgronau'r cwmni a'r fewnrwyd.

### **E-byst i hyrwyddo**

Anfonir y rhain gan lysgennad mewnol neu aelod o'r tîm rheoli.

### **Stondinau mewn mannau cyhoeddus**

Stondinau wythnosol neu fisol, e.e. maes parcio neu ffreutur i ddenu rhoddwyr.

### **Cyflwyniadau**

Ar gyfer grwpiau gweithwyr bach neu fawr yn ystod cyfnodau addas a drefnwyd ymlaen llaw.

### **Posterï**

Deunyddiau hyrwyddo i'w harddangos ar hysbysfyrdau, ystafelloedd derbyn neu ystafelloedd staff.

## Gwybodaeth bellach

### Cymru'n Rhoi

Llinell gymorth 0800 2888 329

[givingwales@wcva.org.uk](mailto:givingwales@wcva.org.uk)

### Cynllun rhoi drwy'r gyflogres

[www.charitablegiving.co.uk](http://www.charitablegiving.co.uk)

### Institute of Fundraising

Tax-effective giving Helpline

0845 458 4586

[taxback@institute-of-fundraising.org.uk](mailto:taxback@institute-of-fundraising.org.uk)

[www.tax-effectivegiving.org.uk](http://www.tax-effectivegiving.org.uk)

### HMRC Charities

Helpline 0845 302 0203

[charities@hmrc.gov.uk](mailto:charities@hmrc.gov.uk)

[www.hmrc.gov.uk](http://www.hmrc.gov.uk)

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

## Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

### Medrwn Môn

*Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA*

**Elusen Gofrestredig 1088828**

**Ffôn:** 01248 724944

[post@medrwnmon.org](mailto:post@medrwnmon.org)

**Ffacs:** 01248 750149

[www.medrwnmon.org](http://www.medrwnmon.org)



Ffôn: 0800 2888 329

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
**Wedi ei ddiweddarau:** 04/11/2009